

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, NOS LUN 14eg, Mawrth 2016.

PRESENNOL

Nerys Dobson (Cadeirydd), Dewi Wynne Jones, Eifion Williams, Arwel Ll. Jones, Mike Rayner Hefin Martin, Dewi Arfon Jones, Delyth Algeri (clerc).

YMDDIHEURIADAU

John Owen, Alun Morris

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 13eg o Ionawr, 2016.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

1) GEGIN WEN

Pasiwyd i'r gwaith ar y maes parcio Cegin Wen gael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn newydd pan fydd tywydd yn caniatáu.

2) ATGYWEIRIO WAL MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH

Derbyniwyd dau amcangyfrif cost i atgyweirio'r wal ym maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan gan Mr Osian Jones, Argraig, Maenan a oedd yn £300 ar llall oedd Mr Elwyn Williams, Tyn Gwern Uchaf, Llanddaged am £150.

Penderfynwyd a phasiwyd mynd am bris Mr Elwyn Williams, Tyn Gwern am £150 i atgyweirio'r wal .

CYNLLUNIO

- 1) Cais Rhif 0/42507 - Trawsnewid Capel rhestredig gradd 11 presennol i annedd unigol (Caniatâd Adeilad Rhestredig) I & J Developments (Stratford Upon Avon) yng Nghapel Soar Tan y Bryn, Llanddaged LL26 OBJ.
Penderfynwyd a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais yma.

CEISIADAU AM RODD ARIANNOL

1. Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst .
2. Sioe Wledig Llanrwst.

Pasiwyd i anfon rhodd o £25 i'r Eisteddfod Llanrwst a £30 o bunnoedd rhodd at Sioe Llanrwst.

GOHEBIAETH

1. Cylchgrawn – 'Chwarae Dros Gymru'.
2. Llythyr cais ariannol gan Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst.
3. Llythyr yn diolch am rodd ariannol gan Gylch Meithrin Llanddaged.
4. Llythyr cais ariannol gan Sioe Wledig Llanrwst.
5. Newyddlen gan 'Trystan Lewis' ymgeisydd i'r Blaid Cymru.
6. Un Llais Cymru - Cais am dal aelodaeth o £77.
7. Tower Mint Ltd - Medal I ddathlu pen-blwydd y frenhines yn 90 oed.

8. J. Llewelyn Hughes a'i gwmi – Llythyr yn hysbysebu am gynhadledd pensiwn yn Glasdir i weithiwr cyflogedig y cyngor cymuned.

CYNNAL A CHADW

- 1) Angen ail gysylltu gyda Chonwy ynglŷn ar dwr sydd yn hel o dan y bont wrth Pont y Groes Maenan.
- 2) Tyfiant yn tyfu allan i'r ffordd ar ffordd Trwyn Swch ac yn bachu ar gerbydau.
- 3) Tyllau yn y ffyrdd o gwmpas yr ardal yn enwedig y ffordd i lawr o Landdoged I Lanrwst.
- 4) Angen edrych ar y ffordd wrth Tair Ysgubor Maenan a'r cylfat wrth yr Hen Felin, Maenan.